
# CYMDEITHAS WALIAU CERRIG SYCHION PRYDAIN

# CYNLLUN ARDYSTIO CREFFTWYR A ACHREDIR GAN DDYFARNIADAU LANTRA

## ar gyfer Lefel 1, 2 a 3
## ynghyd â Ffurflen Gais

## Manylion a Ffurflen Gais Prawf Prif Grefftwr y DSWA

*Mae'r gofynion a nodir yn y cyhoeddiad hwn yn berthnasol o Ionawr 2012 ymlaen*



**Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion Prydain**
**Cynllun Ardystio Crefftwyr a Achredir gan Ddyfarniadau Lantra**

## Cyflwyniad

Mae Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion Prydain (DSWA), mewn partneriaeth â'r Corff Dyfarnu, Dyfarniadau Lantra, yn cynnig cyfres o brofion ymarferol cynyddol sydd yn arwain, yn y pen draw, at dystysgrif *Prif Grefftwr y DSWA* mewn codi waliau cerrig sychion. Mae'r cynllun wedi'i lunio i wneud yn siŵr bod codwyr waliau cerrig sychion yn cyrraedd y safonau uchaf o ran crefftwaith.

Mae profion ar gael ar gyfer tystysgrif Lefel 1 / Cychwynnol, tystysgrif Lefel 2 / Canolradd, tystysgrif Lefel 3 / Uwch a lefel Prif Grefftwr y DSWA. Mae tystysgrifau Lefel 1-3 yn gymwysterau cydnabyddedig ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau a gallant fod yn gymwys i dderbyn cyllid drwy golegau / darparwyr hyfforddiant.

*Noder y gallai tystysgrif Lefel 2 / Canolradd a thystysgrif Lefel 3 / Uwch fod wedi'u cynnwys hefyd mewn cymwysterau a gaiff eu cynnig gan ganolfannau/colegau cymeradwy, fel rhan o Fframwaith Prentisiaeth Lantra.*

## Pwy all gael eu Profi?

Mae profion ar gael i bob unigolyn, boed yn aelod o'r DSWA neu beidio. Dylai'r rhai sydd ar gynlluniau hyfforddi gychwyn â phrawf Lefel 1 / Cychwynnol. Gallai'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y grefft ac sydd â phrofiad priodol hepgor cymryd prawf lefel 1 / Cychwynnol a chychwyn â phrawf Lefel 2 / Canolradd. Rhaid i'r profion gael eu cynnal drwy Ganolfannau Cymeradwy.

## Ble mae cael Cymorth ac Arweiniad

Mae'r rhan fwyaf o ganghennau'r DSWA yn cynnal penwythnosau hyfforddi neu gyfarfodydd ymarfer i roi cyfarwyddyd a hyfforddiant i "ddechreuwyr" a "gwellhawyr". Caiff y dyddiadau eu cyhoeddi ar wefan DSWA: www.dswa.org.uk. Gall y Gymdeithas roi gwybodaeth am ddyddiadau profion sy'n cael eu cynnal mewn amryw leoliadau ledled y wlad. Caiff ymgeiswyr eu cynghori i roi cynnig ar o leiaf un prawf fel ymarfer cyn diwrnod y prawf ei hun.

## Sut i wneud cais

Mae'r Ffurflenni Cais ar gael o swyddfa'r DSWA neu gellir eu lawrlwytho o'r wefan, www.dswa.org.uk, yn yr adran *Craftsman Certification Scheme* o dan bennawd *Training*. Dylid cwblhau'r ffurflenni cais mewn da bryd cyn dyddiad y prawf a'u cyflwyno i'r DSWA ynghyd â'r ffi, **o leiaf chwe wythnos cyn dyddiad y prawf**. Mae bellach yn bosib talu ar-lein drwy wefan y DSWA, naill ai gan ddefnyddio PayPal neu gerdyn credyd/debyd, ond bydd yn rhaid anfon Ffurflen Gais wedi'i llenwi i'r swyddfa naill ai drwy e-bost neu'r post. Mae'r ffioedd yn cynnwys cost cofrestru a chost yr arholiad.

Yn achos unrhyw anghydfod, rhoddir blaenoriaeth i'r fersiwn Saesneg gyfredol.'

**Sut y caiff Profion eu Trefnu a'u Cynnal**

Fel arfer, caiff y profion eu trefnu drwy gysylltu â swyddfa genedlaethol y DSWA. Mae'r ffurflen gais yn rhoi manylion trefniadau'r holl brofion. Caiff ffioedd yr Arholwyr eu pennu'n genedlaethol a'u talu gan y DSWA. Serch hynny, dylai unrhyw un sydd am drefnu hyfforddiant cyn rhoi cynnig ar y prawf drafod ffioedd / costau hyfforddi gyda Hyfforddwr cymwys lleol.

Ni ellir cynnal profion hyd nes i'r DSWA dderbyn y Ffurflen Gais a'r ffi. Caiff y taflenni marcio eu rhoi i'r Arholwr/Arholwyr ar ôl i'r ceisiadau gael eu prosesu.

Rhaid i'r Canolfannau Cymeradwy sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth i asesiadau risg priodol a darpariaeth cymorth cyntaf, a bod Cydlynydd Safle ar y safle drwy gydol cyfnod y prawf. **Dylai'r Canolfannau droi at y *Guidance Notes for Approved Centres* i gael mwy o wybodaeth.**

Dim ond un Arholwr fydd ei angen ar gyfer prawf Lefel 1 / Cychwynnol. Pan fydd canolfannau yn trefnu profion Lefel 2 / Canolradd neu uwch, bydd angen dau Arholwr; bydd angen i o leiaf un o'r Arholwyr fod o'r tu allan i'r ardal honno. Efallai y caiff Arholwyr ychwanegol eu trefnu yn ôl yr angen, yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr.

Ar bob lefel, rhaid i'r gwaith fod yn waith yr ymgeisydd a hynny heb unrhyw gymorth. Ni ddylai ymgeiswyr sefyll prawf ar ddarn o wal y maent wedi ymarfer arno ymlaen llaw. Awgrymir y dylid dewis o het i weld pwy fydd yn gweithio ar ba ran o wal yn y prawf, a bydd yr Arholwyr yn sicrhau bod cerrig allweddol, fel y rhai ar gyfer terfyniadau, wedi'u dosbarthu ar hap os yw'n amlwg y defnyddiwyd y safleoedd i ymarfer neu i gynnal profion yn flaenorol.

Dylai'r ymgeiswyr sicrhau bod eu dillad a'u hymddygiad, drwy gydol y prawf, yn briodol o ran eu hiechyd a diogelwch eu hunain ac iechyd a diogelwch pobl eraill ar y safle. Dylai pawb sydd yn ymwneud â'r prawf ymddwyn mewn ffordd briodol drwy gydol yr amser.

Er mwyn llwyddo, mae'n rhaid i ymgeisydd gael marc o o leiaf 50% ym mhob adran yn y prawf. Hefyd, mae'n rhaid cyrraedd cyfanswm y canrannau a nodir isod er mwyn llwyddo:

**Lefel 1 /Cychwynnol 50%**
**Lefel 2 / Canolradd 60%**
**Lefel 3 / Uwch 67% yn Rhan A a Rhan B**
**Prif Grefftwr 75% yn Rhan A a Rhan B.**

**Noder**: *Ym mhob prawf, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr gyrraedd o leiaf yr isafswm marc ym mhob adran ynghyd â'r isafswm ar gyfer cyfanswm y prawf cyfan, er mwyn derbyn y dystysgrif berthnasol. Os bydd unrhyw adran yn unrhyw un o'r profion yn derbyn marc sy'n is na'r isafswm, caiff hyn ei ystyried yn fethiant cyffredinol yn y prawf cyfan, hyd yn oed os bydd cyfanswm y marciau a gafwyd yn fwy na'r isafswm sydd ei angen yn y prawf hwnnw.*

Os yw ymgeisydd yn methu â chyrraedd y marc sydd ei angen i lwyddo mewn prawf, rhaid i'r Arholwyr nodi'n glir wrth yr ymgeisydd pa feysydd sydd yn wendid. Cynghorir bod angen tri mis cyn i ymgeisydd wneud cais i ailsefyll prawf ar unrhyw lefel.

Bydd y DSWA / Dyfarniadau Lantra yn penodi Arholwyr ar gyfer pob prawf perthnasol a gallant anfon cynrychiolwyr i arsylwi profion heb rybudd.

Dim ond pan fydd y nifer angenrheidiol o ymgeiswyr, chwech ar hyn o bryd, ar gael y caiff profion eu cynnal; gall y nifer hon gynnwys ymgeiswyr sydd yn sefyll prawf ar wahanol lefelau. Serch hynny, gallai'r Gymdeithas wneud trefniadau arbennig i rai mewn ardaloedd anghysbell a'r rhai sy'n dymuno sefyll prawf Lefel 3 / Uwch neu brawf Prif Grefftwr, ond gellid gofyn i'r ymgeiswyr a/neu drefnwyr y prawf dalu unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi.

**Yn achos Prawf Lefel 3 / Uwch a Phrawf Prif Grefftwr, noder:**
**Opsiwn ar y Safle:** Pan gaiff nodweddion eu hadeiladu o fewn radiws o un filltir i safle prawf. Bydd Arholwyr yn marcio'r nodweddion tra'n bresennol ar y safle ar ddiwrnod prawf.

**Opsiwn oddi ar y Safle:** Pan gaiff nodweddion eu codi naill ai fel rhan o waith arferol yr ymgeisydd a heb fod o anghenraid yn agos at safle'r prawf, nac yn wir i'w gilydd, neu pan gânt eu hadeiladu ar safle prawf neu'n agos ato, ond yn cael eu marcio yn annibynnol ar brawf ar y safle hwnnw. Mae'r gost yn adlewyrchu'r gwaith a'r teithio ychwanegol ar ran yr Arholwyr.

**<u>Apelio</u>**
Er mwyn apelio yn erbyn canlyniad prawf, rhaid gwneud hynny'n ysgrifenedig i'r DSWA o fewn pythefnos i ddyddiad y prawf. Rhaid rhoi manylion llawn a rhaid anfon ffi o £100 gyda'r apêl, a gaiff ei ad-dalu pe bydd yr apêl yn llwyddiannus.

**Ni ddylai Arholwyr arholi eu hyfforddeion na'u cyflogeion eu hunain.**

**<u>Pwy yw'r Arholwyr?</u>**
Mae'r DSWA yn penodi Arholwyr o blith deiliaid presennol Tystysgrif Prif Grefftwr, sydd wedi'u cymeradwyo gan Ddyfarniadau Lantra. Mae gofyn i bawb a gaiff eu penodi gwblhau Cwrs Safoni Arholwyr y DSWA bob dwy flynedd, o leiaf ddwywaith mewn chwe blynedd. Mae'r DSWA yn cynhyrchu rhestr o arholwyr a gaiff ei hadolygu'n flynyddol, a chewch ei gweld pe gofynnwch amdani.

**<u>Ar ôl Cwblhau'r Prawf</u>**
Ar ôl derbyn y taflenni marcio wedi'u llenwi a'u llofnodi gan yr Arholwr ynghyd â'r adroddiadau perthnasol, caiff tystysgrifau eu hanfon i'r ymgeiswyr llwyddiannus fel arfer o fewn pedair wythnos i'r prawf. Caiff unrhyw ymholiadau ynglŷn â ffurflenni'r Arholwyr eu cyfeirio at Grŵp Sgiliau Crefft y

DSWA ac i Ddyfarniadau Lantra yn achos tystysgrif Lefel 1 / Cychwynnol, tystysgrif Lefel 2 / Canolradd, neu dystysgrif Lefel 3 / Uwch.
Mae'r DSWA yn cadw cofnod cyfrifiadurol o bob tystysgrif a roddir, a defnyddir y cofnod hwn i roi gwybodaeth am lefel sgiliau a chymwysterau unigolyn pe byddai angen. Os bydd cyfnod estynedig heb fod tanysgrifiad wedi'i dalu, mae'r DSWA yn cadw'r hawl i arholi ymhellach safon crefftwaith y rhai sy'n dymuno parhau ar y *Register of Certified Professional Wallers* cyhoeddedig; bydd gofyn i'r ymgeisydd dalu am gostau'r arholiad hwnnw.

Pe byddai'r Gymdeithas yn derbyn cwynion wedi'u cadarnhau bod safon y gwaith heb gyrraedd lefel ardystiedig rhyw unigolyn, mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ofyn i'r unigolyn sefyll arholiad pellach i brofi safon ei grefftwaith/crefftwaith. Gallai'r DSWA dynnu'r ardystiad oddi arnynt os nad ydynt yn cyrraedd y safonau. Bydd gofyn i'r unigolion dalu'r holl gostau sy'n codi.

Pe caiff tystysgrif ei cholli neu ei difrodi, gellir cael copi newydd drwy'r DSWA, am gost o £20 am bob cymhwyster.

**<u>Codwyr Waliau sy'n Gweithio</u>**
Dylai codwyr waliau sy'n gweithio sicrhau bod lefel eu hardystiad yn adlewyrchu safon eu gwaith. Mae'r *Register of Certified Professional Wallers & Dykers* yn nodi lefel tystysgrif y rhai sy'n talu'r tanysgrifiad proffesiynol a chaiff ei chynhyrchu'n flynyddol gan y DSWA. Mae'r gofrestr ar gael i unrhyw un sydd eisiau defnyddio gwasanaethau codwr waliau proffesiynol. Mae'r gofrestr hon yn cadarnhau bod pob un sydd wedi'i restru â'r gallu i wneud gwaith o leiaf i safon lefel y dystysgrif y mae'n ei meddu. Dylai cyflogwyr fod yn ymwybodol mai dan amgylchiadau <u>delfrydol</u> y caiff y lefelau gwaith eu hystyried yn y profion, ac nid yw'r rheiny bob amser yn bodoli mewn sefyllfaoedd masnachol. Mae'r Gofrestr hefyd ar gael ar-lein, www.dswa.org.uk, sydd yn cynnwys dolenni uniongyrchol i wefannau aelodau proffesiynol, sy'n rhoi gwybodaeth bellach ynglŷn â'u gwaith.



**Beth mae'r Arholwyr yn Chwilio Amdano**
**Rhaid cael canllawiau ar gyfer nodweddion Lefel 3 / Uwch a Phrif Grefftwr, gan gynnwys cyfrifo'r goledd.**

**Gosod Allan:** Cerrig copa wedi'u gosod allan mewn llinell tua 2 fetr o'r wal. Gorchuddwyr a cherrig pwyth wedi'u gosod allan wrth eu hochor. Cerrig adeiladu a'r llanw wedi'u gosod allan ar ddwy ochr y wal. Cerrig sylfaen wedi'u gosod ar ben y cerrig adeiladu. Lle gwag, heb gerrig, ar ddwy ochr y wal.

**Paratoi a Gosod Sylfeini:** Sylfaen wedi'i gloddio a'i wastatáu. Cerrig sylfaen wedi'u gosod i'r lled cywir â'u hechel hiraf i mewn i'r wal. Sylfaen wedi'i lenwi'n dda â cherrig llanw. Dylai cerrig mawr iawn gael eu gosod yn y sylfaen.

**Adeiladu a Llenwi:** Cerrig yn dynn at ei gilydd heb fylchau. Dim uniadau rhedeg yn fwy na dwy res o gerrig. Cerrig wedi'u gosod mewn cyrsiau os yw'n briodol a llinell bendant ar gyfer cerrig pwyth, yn briodol i uchder y wal (hanner yr uchder fel arfer ond noder amrywiadau lleol). Defnydd da o lanw, wedi'i gywasgu i mewn yn drylwyr, ac nid wedi'i daflu i mewn. Wal dynn heb gerrig rhydd. Llinell bendant ar uchder y gorchuddwyr neu'r cerrig copa. Po fwyaf yw'r cerrig, yr isaf yn y wal y dylid eu gosod.

**Gosod Cerrig Pwyth:** Wedi'u gosod gyda thua 1 metr rhyngddynt. Gwnewch yn siŵr eu bod yn gorwedd yn gadarn ar y wal. Dylent ddod allan 50-80mm bob pen (ond noder amrywiadau lleol). Rhaid i gerrig pwyth byr fod ar gyrsiau am yn ail gyda'u pennau mewnol yn gorwedd ar ei gilydd i sicrhau bod y pwysau'n cael ei drosglwyddo'n wastad.

**Cerrig Copa a Gorffeniad:** Dylai'r cerrig orwedd yn gadarn ar eu gwaelod eu hunain yn hytrach na chael eu dal i fyny ar gerrig pinio. Cerrig yn fertigol, yn dynn at ei gilydd ac yn gafael yn dda yn ei gilydd er mwyn rhoi gorffeniad gwastad (mae rhai ardaloedd yn gosod cerrig copa ar oledd, ac mewn ardaloedd eraill ceir amrywiadau y dylid eu dilyn). Cyn lleied o binio ag sydd yn bosibl. Dylai'r pinio fod yn daclus gan asio i'r wal.

**Goledd neu Gambr:** Dylai'r wal ddod i mewn yn wastad. Ni ddylai fod unrhyw fochau na phantiau yn y wal wrth iddi godi. Defnyddio ffrâm neu binnau yn gywir wrth osod y cambr.

**Llinell a Sythder:** Defnydd cywir o linellau: tynn, gwastad, lled cywir. Gorchuddwyr yn rhedeg yn wastad. Ni ddylai fod plygiad na bochau yn hyd y wal.

**Terfyniad:** Cerrig wedi'u clymu'n ôl i mewn i'r wal yn dda. Dewis da o gerrig wedi'u gosod 2-ar-1 ac 1-ar-2. Ni ddylai fod uniad rhedeg yn yr wyneb na lle mae'r cerrig wedi'u clymu i mewn i'r wal. Carreg copa gadarn dda. Gweithio o'r terfyniad yn ôl i mewn i'r wal.

**Terfyniad Crwn:** Goledd da. Llinell dda i'r gromlin ac yn unffurf.

**Cornel Sgwâr:** Cerrig hir wedi'u clymu ar draws ei gilydd am yn ail y tu fewn a'r tu allan i'r gornel. Goledd cywir ar y tu fewn a'r tu allan. Carreg gopa dda a chadarn ar y gornel.

**<u>Twll Defaid neu Gwter (*Waterpen*)</u>:** O leiaf 0.5m x 0.5m. Corneli wedi'u clymu'n ôl yn dda i mewn i'r wal. Dewis o gerrig addas. Gorchuddwyr (lintel) sy'n ddigon hir i ymestyn yn ddigonol i mewn i'r wal bob ochr.

**<u>Camfa</u>:** Camfa risiog ag iddi o leiaf 3 gris. Y darn fertigol rhwng grisiau heb fod yn fwy na 200mm. Dylai'r grisiau ymwthio allan 230-250mm bob ochr i'r wal. Y pellter rhwng y grisiau yn gytbwys wrth esgyn o un gris i'r llall. Lle digonol ar bob gris i esgid fawr gamu arno. Grisiau wedi'u gosod fel na fydd troed/coes yn mynd i lawr rhyngddynt. Cerrig copa mawr. Camfa wasgu: lle i un esgid ond dim digon o le i ddefaid basio drwyddi. Terfyniadau cadarn.

**<u>Tir ar Lethr</u>:** Rhaid defnyddio/dewis llethr o ryw 20 gradd yn achos prawf lefel Uwch a 30 gradd yn achos prawf Prif Grefftwr. Dylai'r sylfeini fod ar ffurf gris bob rhyw bellter priodol. Dylai nifer y grisiau fod yn briodol ar gyfer pa mor serth yw'r llethr. Rhaid i'r cerrig copa fod yn cynnal eu hunain. Dylai'r cerrig pwyth fod yn llorweddol a phob un ar yr un pellter uwch y sylfeini. Bydd yr arholwyr yn gwirio bod y llethr yn ddigon serth. Dylai'r cyrsiau fod yn llorweddol.

**<u>Wal Uchel</u>:** Lled gwaelod y wal yn gyfrannol â'r uchder. Nifer gywir o gyrsiau o gerrig pwyth o ystyried yr uchder. Os oes sawl rhes o gerrig pwyth, wrth fynd ar hyd y wal, dylai carreg bwyth mewn rhes uwch fod wedi'i gosod hanner ffordd rhwng dwy garreg bwyth mewn rhes oddi tani. Goledd cyson drwy gydol y wal. Arferion gweithio diogel, yn arbennig wrth godi'r cerrig copa.

**<u>Wal Gynhaliol</u>:** Gosod allan yn ofalus rhag i dir ddisgyn. Lled gwaelod y wal a'r cambr yn briodol i'r uchder a'r deunydd a gaiff ei gynnal. Cerrig adeiladu wedi'u gosod â'u hyd i mewn i'r wal. Cywasgu'r llanw'n ofalus yn ôl i wyneb y pridd. Cerrig pwyth mor hir a phosibl ac yn torri'n ôl i mewn i wyneb y pridd. Defnyddio rhesi ychwanegol o gerrig pwyth gan ystyried yr uchder. Rhaid i'r twmpath bridd a gaiff ei gynnal fod o leiaf 1.2m o uchder, wrth fesur o waelod y sylfeini, a dylai'r wal fod yn gynhaliol hyd at waelod y cerrig copa.

**<u>Curve</u>:** Wal â chromlin bendant (gweler y canllawiau). Cromlin yn llyfn gyda goledd gwastad y tu mewn a'r tu allan i'r gromlin. Dylai'r cerrig adeiladu fod yn dynn. Rhaid i'r cerrig copa ffitio'n dynn.

**<u>Pileri</u>:** Defnyddio proffil. Gwirio eu bod yn fertigol. Cerrig wedi'u brasnaddu. Dim tyllau. Llanw wedi'i gywasgu'n dynn iawn.

**<u>Grisiau</u>:** Y dewis o gerrig i greu'r grisiau. Lleiafswm nifer y cerrig i bob cam. Cerrig camu wedi'u diogelu'n dda ar yr ochrau a'r tu cefn. O leiaf 300mm o le camu. Pob gris yn codi'r un uchder. Dim un gris yn fwy na 225mm yn uwch na'r gris blaenorol.

**<u>Bwa</u>:** Rhaid iddo gynnwys wal uwchben y bwa ynghyd â cherrig copa. **Bwa carreg glo**: codi a gosod bwa carreg glo. Dewis, brasnaddu a gosod cerrig clo. Pa mor dynn ydyw, a sut mae'r llanw. Bwa corbelog: cerrig sy'n cyd-fynd wedi'u clymu'n dda i mewn i'r wal. Carreg uchaf yn fawr ac wedi'i chlymu i mewn yn dda. Pa mor dynn ydyw, a sut mae'r llanw.

**<u>Dulliau Cyffredinol a Diogelwch</u>:** Dull trefnus o weithio. Addasrwydd ac ymagwedd at y gwaith dan sylw, yn benodol o ran trin cerrig trwm yn ddiogel a

chyfarwyddyd i eraill sy'n cynorthwyo os oes angen. Dangos sgiliau yn gyson. Defnyddio morthwyl yn ddiogel. Cadw'r ardal weithio yn glir o rwystrau. Gadael unrhyw gerrig dros ben mewn pentyrrau taclus. Offer gweithio priodol, yn benodol esgidiau a sbectol/gogls diogelwch yn enwedig ar gerrig sy'n torri'n ysgyrion. Ymwybyddiaeth o unrhyw faterion iechyd a diogelwch a sylw dyledus i eraill ar y safle neu gerllaw. Talu sylw dyledus i gadwraeth bywyd gwyllt a chynefin yn y wal, ar y wal ac wrth ymyl y wal.

*Noder: Pe byddai'r ymgeisydd yn defnyddio dulliau anniogel yn ystod y prawf, yn enwedig o ran diogelwch pobl eraill ar y safle, bydd hynny'n arwain at fethu'r prawf ac, os bydd angen, bydd yr Arholwr yn dod â'r prawf i ben. Y Ganolfan Gymeradwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r Cydlynydd Safle i sicrhau diogelwch yr ymgeiswyr ac y caiff gweithdrefnau iechyd a diogelwch eu dilyn, gan gynnwys sicrhau bod Cymorth Cyntaf ar gael.*

## MANYLEBAU AR GYFER YR ARHOLIAD

Rhaid i'r holl waith fod yn waith yr ymgeisydd a hynny heb gymorth.

Caiff metr sgwâr, fel a ddefnyddir yn y manylebau canlynol, ei gyfrifo gan hyd x uchder y wal, wedi'i fesur ar un ochr wal dau wyneb.

Caiff unrhyw fesuriadau llorweddol eu cymryd ar hanner uchder y wal. Caiff mesuriadau fertigol eu cymryd o waelod y sylfeini neu'r gwasgarwch i ben uchaf y cerrig copa.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â sut i osod a defnyddio fframiau, llinynnau ac ati, a'u defnyddio yn ystod y profion.

Mewn ardaloedd ble y caiff mwy nag un rhes o gerrig pwyth eu defnyddio yn y wal, rhoddir y marc am yr holl gerrig pwyth ac ni ellir dyfarnu'r marc hyd nes bod pob un yn eu lle.

Mewn ardaloedd ble y defnyddir dau blethwr sy'n gorgyffwrdd yn lle cerrig pwyth, dylid dyfarnu'r marc am y plethwyr a osodir i gryfhau'r wal.

Gall Arholwyr ymestyn yr amser a ganiateir os ydynt yn cytuno bod hyn yn angenrheidiol o ystyried y math o garreg, y dirwedd, y tywydd ac ati, i sicrhau bod y prawf yr un peth i bob ymgeisydd (90 munud yw'r amrywiad mwyaf a ganiateir ar ddisgresiwn yr Arholwyr). Dylai unrhyw estyniad o'r fath gael ei ddatgan ar ddechrau'r prawf i bob ymgeisydd.

Dylid ystyried mai'r mesuriadau a nodir ar gyfer y nodweddion yw'r lleiafswm sy'n ofynnol. Dylai pob nodwedd gyd-fynd â'r prosiect y maent yn rhan ohono.


Dylai waliau a nodweddion fod yn sefyll ar eu pen eu hunain os oes angen mynediad at ddwy ochr y wal.

## MEINI PRAWF TYSTYSGRIF LEFEL 1 / CYCHWYNNOL

Dylai pob ymgeisydd dynnu adran o wal syml i lawr, sy'n gyfanswm o 2.5 metr sgwâr, a'i hailadeiladu, o fewn cyfnod o saith awr. Dylai'r Arholwr fod yn bresennol tra bod y gwaith yn cael ei wneud.

Mae'r safon sy'n ofynnol yn rhoi pwyslais ar adeiladu da a chadarn yn hytrach nag ar ansawdd gorffenedig. **Rhaid i ymgeisydd gael o leiaf y marc isaf a nodir ym mhob adran a chyfanswm cyffredinol o o leiaf 50 er mwyn llwyddo yn y prawf.**

| | Marc Uchaf | Marc Isaf |
|---|---|---|
| Gosod allan | 10 | 5 |
| Paratoi a gosod sylfeini | 24 | 12 |
| Adeiladu a llenwi (cyfnod cyntaf hyd at y cerrig pwyth) | 20 | 10 |
| Gosod y cerrig pwyth | 6 | 3 |
| Adeiladu a llenwi (ail gyfnod) | 20 | 10 |
| Cerrig copa a gorffeniad | 15 | 7.5 |
| Dulliau cyffredinol a diogelwch | 5 | 2.5 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 100 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI ANGEN I LWYDDO** | | **50** |




## MEINI PRAWF TYSTYSGRIF LEFEL 2 / CANOLRADD

Dylai pob ymgeisydd dynnu adran o wal i lawr, sydd heb fod yn llai nag 1 metr o uchder o dan y cerrig copa, ac yn gyfanswm o 2.5 metr sgwâr, a'i hailadeiladu. Dylai'r wal gynnwys terfyniad fertigol, a dylid cwblhau'r gwaith mewn cyfnod o saith awr. Dylai'r Arholwr fod yn bresennol tra bod y gwaith yn cael ei wneud. **Rhaid i ymgeisydd gael o leiaf y marc isaf a nodir ym mhob adran a chyfanswm cyffredinol o o leiaf 69 er mwyn llwyddo yn y prawf.**

| | Marc Uchaf | **Marc Isaf** |
|---|---|---|
| Gosod allan | 5 | 2.5 |
| Paratoi a gosod sylfeini | 10 | 5 |
| Adeiladu a llenwi (cyfnod cyntaf) | 12 | 6 |
| Gosod y cerrig pwyth | 6 | 3 |
| Adeiladu a llenwi (ail gyfnod) | 12 | 6 |
| Llinell a Sythder | 10 | 5 |
| Goledd | 15 | 7.5 |
| Cerrig copa a gorffeniad | 10 | 5 |
| Y terfyniad | 30 | 15 |
| Dulliau cyffredinol a diogelwch | 5 | 2.5 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 115 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI ANGEN I LWYDDO** | | **69** |

Dylid dilyn egwyddorion sylfaenol adeiladu fel sydd wedi'u nodi yn Nhystysgrif Lefel 1 / Cychwynnol. **Yn ychwanegol**, rhoddir pwyslais penodol ar: llinell a sythder; llanw digonol; dewis o gerrig ar gyfer pob rhan; goledd neu gambr; cerrig pwyth a gorchuddwyr wedi'u gosod yn gywir; cadernid y cerrig copa.



## MEINI PRAWF TYSTYSGRIF LEFEL 3 / UWCH

Rhaid cael canllawiau ar adeiladu'r nodweddion gan y DSWA. Gan fod y cyfyngiadau amser wedi'u tynnu o ran A y prawf, bydd yr Arholwyr yn disgwyl i'r gwaith fod o ansawdd uchel.

**Mae dwy ran i'r dystysgrif hon, a rhaid gwneud cais amdanynt a thalu amdanynt ar wahân.** Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn meddu ar Dystysgrif Lefel 2 / Canolradd cyn iddynt ymgeisio am Dystysgrif Lefel 3 / Uwch, Rhan A (Nodweddion). **Rhaid i Ran A gael ei marcio a rhaid llwyddo ynddi cyn y gellir ymgeisio am Ran B** (Prawf wedi'i amseru – Wal Gynhaliol). Serch hynny, dylai'r ymgeiswyr ystyried y dystysgrif fel un cymhwyster, **gan gynnwys ymarfer ar gyfer yr adran a gaiff ei hamseru**, tra'n gweithio ar eu nodweddion.

Gofynnir i'r ymgeiswyr gyflwyno tri ffotograff sy'n dangos y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y ddwy nodwedd. Dylid anfon y rhain ar y cyd â Ffurflen Gais y prawf.

**Rhaid i ymgeisydd gael o leiaf y marc isaf a nodir ym mhob adran a chyfanswm cyffredinol o o leiaf 87 er mwyn llwyddo i gael y dystysgrif lawn.**

**Rhan A**

Ar gyfer rhan A, naill ai gellir dewis yr opsiwn ar y safle neu'r opsiwn oddi ar y safle (mae'r goblygiadau o ran cost i'w gweld ar y ffurflen gais). Rhaid i'r ymgeiswyr adeiladu 5 metr sgwâr o wal grom ynghyd â 5 metr sgwâr ychwanegol sy'n cynnwys un o'r nodweddion isod. Bydd person cyfrifol sy'n dderbyniol gan y DSWA yn cadarnhau mai gwaith yr Ymgeisydd, heb gymorth, yw'r nodweddion. Pe cânt eu hadeiladu ar safle prawf, caiff y nodweddion eu marcio gan Arholwyr ar ddiwrnod y prawf nesaf a gynhelir ar y safle hwnnw. Pe caiff y nodweddion eu hadeiladu gan ddewis yr opsiwn oddi ar y safle, dylai'r ymgeiswyr gysylltu â'r DSWA i drefnu iddynt gael eu marcio pan yddant wedi'u cwblhau.

Pum metr sgwâr o wal o leiaf 1.8 metr o uchder; NEU
Pum metr sgwâr o wal yn cynnwys twll defaid neu gwter (*waterpen*) (o leiaf 0.5m x 0.5m); NEU
Pum metr sgwâr o wal ar dir sydd â llethr o 20 gradd neu fwy.

| | *Marc Uchaf* | *Marc Isaf* |
|---|---|---|
| Adeiladu wal grom | 20 | 13.5 |
| Adeiladu nodwedd arbennig: Wal uchel neu dwll defaid / cwter (*waterpen*) neu ar lethr | 20 | 13.5 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 40 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI ANGEN I LWYDDO YN RHAN A** | | **27** |

Ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau Rhan A yn llwyddiannus, gall wedyn wneud cais i sefyll Rhan B (Prawf wedi'i amseru – Wal Gynhaliol), a fyddai'n cael ei adeiladu ar safle prawf fel rhan o ddiwrnod prawf a drefnir ymlaen llaw. Disgwylir i Ran B gael ei chymryd o fewn 12 mis i lwyddo yn Rhan A neu bydd gofyn i'r

ymgeisydd roi cynnig arall ar Ran A, gan gyflwyno nodweddion newydd. Os bydd ymgeisydd yn methu yn Rhan A, rhaid iddo/iddi roi cynnig arall ar yr adran hon, gan dalu'r ffi berthnasol bob tro, cyn symud ymlaen at Ran B.

*NODER: Gall nodweddion Rhan A gael eu hadeiladu fel rhan o sefyllfa waith ond rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gwaith o ansawdd arholiad a bydd yn rhaid talu ffi yr opsiwn oddi ar y safle.*

**Rhan B**

Mae gofyn i'r ymgeisydd dynnu adran o wal i lawr, heb fod yn llai na chyfanswm o 4.5 metr sgwâr, gan gynnwys sylfeini a cherrig copa, a'i hailadeiladu. Rhaid i ran gynhaliol y wal fod o leiaf 1.2 metr o uchder, wedi'i fesur o waelod y sylfeini, a dylai fod yn gynhaliol hyd at waelod y cerrig copa. Rhaid cwblhau'r gwaith mewn cyfnod o saith awr a dylai'r Arholwyr fod yn bresennol tra bod y gwaith yn cael ei wneud.

| | *Marc Uchaf* | *Marc Isaf* |
|---|---|---|
| Gosod allan | 5 | 2.5 |
| Paratoi'r twmpath pridd a gosod sylfeini | 15 | 7.5 |
| Adeiladu a llenwi (cyfnod cyntaf) | 10 | 5 |
| Gosod y cerrig pwyth | 10 | 5 |
| Adeiladu a llenwi (ail gyfnod) | 10 | 5 |
| Llinell a Sythder | 10 | 5 |
| Goledd | 15 | 7.5 |
| Cerrig copa a gorffeniad | 10 | 5 |
| Dulliau cyffredinol a diogelwch | 5 | 2.5 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 90 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI ANGEN I LWYDDO YN RHAN B** | | **60** |

Os yw'r ymgeisydd yn methu yn Rhan B, nid oes cyfyngiad ar nifer y troeon y gall roi cynnig ar yr adran hon o fewn cyfnod o flwyddyn ers llwyddo yn Rhan A, cyhyd ag y telir y ffi berthnasol bob tro.

Dylid dilyn egwyddorion sylfaenol adeiladu fel sydd wedi'u gosod ym mhrofion Lefel 1 / Cychwynnol a Lefel 2 / Canolradd. **Yn ychwanegol**, rhoddir pwyslais penodol ar: sylfeini cadarn a diogel a pharatoi'r twmpath pridd; cywasgu'r llanw yn ddigonol; dewis a gosod cerrig adeiladu; digon o dyllau diferu yn ôl yr angen; digon o gerrig pwyth o ystyried uchder y wal; goledd neu gambr; llinell a sythder; y wal yn gynhaliol hyd at waelod y cerrig copa.

## TYSTYSGRIF PRIF GREFFTWR Y DSWA

**Mae dwy ran i'r dystysgrif hon, a rhaid gwneud cais amdanynt a thalu amdanynt ar wahân.** Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn meddu ar Dystysgrif Lefel 3 / Uwch cyn iddynt ymgeisio am Dystysgrif Prif Grefftwr, Rhan A (Nodweddion). **Rhaid i Ran A gael ei marcio a rhaid llwyddo ynddi cyn y gellir ymgeisio am Ran B** (Nodwedd a ddewisir wedi'i hamseru).

**Rhaid i ymgeisydd gael o leiaf y marc isaf a nodir ym mhob adran a chyfanswm cyffredinol o o leiaf 92 er mwyn llwyddo i gael y dystysgrif lawn.**

Y bwriad yw y gall Rhan A prawf y Prif Grefftwr fod yn rhan o sefyllfa waith / swydd arferol. Serch hynny, rhaid i'r crefftwaith a ddangosir drwy gydol yr amser fod i'r safonau uchaf a ddisgwylir gan y prawf hwn, sef lefel uchaf y profion. Yn y sefyllfa hon, **rhaid** gwneud cais am yr opsiwn oddi ar y safle gan dalu'r ffi berthnasol.

Mae'n annhebygol y bydd y nodweddion angenrheidiol oll i'w cael o fewn y 30 metr sgwâr o wal a bennir, felly gellir ystyried amryw rannau o wal cyhyd â bod y cyfanswm yn cwmpasu o leiaf 30 metr sgwâr, a bod pob nodwedd wedi'i hadeiladu mewn o leiaf 5 metr sgwâr o wal. Dylai'r ymgeisydd sicrhau bod y rhain i gyd o fewn pellter teithio rhesymol i'w gilydd.

Rhaid i'r gwaith, gan gynnwys un o'r nodweddion, gynnwys enghreifftiau sy'n defnyddio cerrig o wahanol fath yn ddaearegol a rhaid dangos gwahanol arddulliau adeiladu, e.e. cyrsiog ac ar hap.

Gofynnir i'r ymgeiswyr gyflwyno tri ffotograff sy'n dangos y gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y nodweddion. Dylid anfon y rhain ar y cyd â'r Ffurflen Gais.

**Rhan A**
Gellir dewis yr opsiwn ar y safle neu'r opsiwn oddi ar y safle (mae'r goblygiadau o ran cost i'w gweld ar y ffurflen gais). Rhaid i'r ymgeiswyr adeiladu **3 nodwedd** wedi'u dewis o'r rhestr isod (caiff y bedwaredd ei hadeiladu yn Rhan B). Bydd person cyfrifol sy'n dderbyniol gan y DSWA yn cadarnhau mai gwaith yr Ymgeisydd, heb gymorth, yw'r nodweddion. Os ydynt wedi'u hadeiladu ar safle prawf, caiff y nodweddion eu marcio gan Arholwyr ar ddiwrnod y prawf nesaf a gynhelir ar y safle hwnnw. Pe caiff y nodweddion eu hadeiladu gan ddewis yr opsiwn oddi ar y safle, dylai'r ymgeiswyr gysylltu â'r DSWA i drefnu iddynt gael eu marcio pan fyddant wedi'u cwblhau.

- Terfyniad crwn NEU gornel crwn NEU gornel ongl sgwâr;
- Set o o leiaf 4 gris o fewn lled o o leiaf 0.6m NEU camfa wasgu; NEU camfa risiog;
- Bwa sydd o leiaf yn 0.6 m o uchder, gan fesur o lefel y tir i waelod y garreg glo, gyda wal uwchben y bwa NEU piler sgwâr NEU biler crwn (pileri o leiaf 1.3 m o uchder a chyfanswm arwynebedd yr wyneb yn o leiaf 3.6 m sgwâr);
- O leiaf 5 metr i'w adeiladu ar lawr sydd â llethr o 30 gradd neu fwy.

| | *Marc Uchaf* | *Marc. Isaf* |
|---|---|---|
| Terfyniad crwn NEU gornel crwn NEU | 12 | 9 |
| Set o risiau NEU gamfa | 12 | 9 |
| Bwa NEU biler | 12 | 9 |
| Gwaith ar lethr | 12 | 9 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 36 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI ANGEN I LWYDDO YN RHAN A (3 nodwedd)** | | **27** |

Dylid dilyn yr egwyddorion adeiladu fel sydd wedi'u gosod ym mhrofion Lefel 1 / Cychwynnol a Lefel 2 / Canolradd. **Yn ychwanegol**, rhoddir pwyslais ar safonau uwch o orffeniad a'r gallu i gynhyrchu gwaith o safon uchel.

Ar ôl i'r ymgeisydd gwblhau Rhan A yn llwyddiannus, gall wedyn wneud cais i sefyll Rhan B (Nodwedd wedi'i Hamseru), a fyddai'n cael ei hadeiladu ar safle prawf fel rhan o ddiwrnod prawf wedi'i drefnu ymlaen llaw. Disgwylir i Ran B gael ei chymryd o fewn 12 mis i lwyddo yn Rhan A neu bydd gofyn i'r ymgeisydd roi cynnig arall ar Ran A, gan gyflwyno nodweddion newydd. Os bydd ymgeisydd yn methu yn Rhan A, rhaid iddo/iddi roi cynnig arall ar yr adran hon, gan dalu'r ffi berthnasol bob tro, cyn symud ymlaen at Ran B.

**Rhan B**
Mae gofyn i'r ymgeisydd dynnu ei ddewis/dewis nodwedd i lawr a'i hailadeiladu, gan gynnwys o leiaf 5 metr sgwâr o wal. Rhaid cwblhau'r gwaith mewn cyfnod o saith awr a dylai'r Arholwyr fod yn bresennol tra bod y gwaith yn cael ei wneud.

| | ***Marc Uchaf*** | ***Marc Isaf*** |
|---|---|---|
| Gosod allan | 5 | 2.5 |
| Paratoi a gosod y sylfeini | 10 | 5 |
| Adeiladu a llenwi | 15 | 7.5 |
| Gosod y cerrig pwyth | 10 | 5 |
| Llinell a Sythder | 10 | 5 |
| Goledd neu gambr | 10 | 5 |
| Cerrig copa a gorffeniad | 10 | 5 |
| Dulliau cyffredinol a diogelwch | 5 | 2.5 |
| Dewis Nodwedd: | 12 | 9 |
| CYFANSWM Y MARCIAU POSIBL | 87 | |
| **CYFANSWM LLEIAF SYDD EI** | | **65** |

Os yw'r ymgeisydd yn methu yn Rhan B, nid oes cyfyngiad ar nifer y troeon y gall roi cynnig ar yr adran hon o fewn cyfnod o flwyddyn ers llwyddo yn Rhan A, cyhyd ag y telir y ffi berthnasol bob tro.


Rhaid i'r Arholwyr sicrhau bod yr holl waith a gyflwynir wedi'i wneud gan yr ymgeisydd heb gymorth ac mewn rhai achosion gallant ofyn i ymgeisydd wneud mwy o waith yn eu gŵydd.

Bydd Arholwyr yn bresennol drwy gydol y prawf a amserir yn gyfan (Rhan B).

Dylai'r Arholwyr ofyn cwestiynau ar hap ynglŷn â nodweddion na welsant yn cael eu hadeiladu er mwyn asesu p'un a ddefnyddiwyd y gweithdrefnau adeiladu cywir.

Rhaid i ymgeiswyr brofi:


- eu gallu i gynhyrchu gwaith o ansawdd ar y raddfa weithio a bennir;
- eu gallu i adeiladu'r holl nodweddion sydd eu hangen yn anfoneb y prawf i safon uchel o grefftwaith;
- eu gallu i gynhyrchu gwaith o ansawdd mewn sefyllfa waith fasnachol.



## YMGEISWYR TRAMOR

Gellir gwneud trefniadau ar wahân i ymgeiswyr sy'n dymuno ymgeisio am dystysgrifau'r DSWA (unrhyw lefel) dramor a byddai gofyn talu ffi gofrestru yn unig (£30) gyda'r ffurflen gais. Rhaid trefnu costau ychwanegol ar gyfer yr Arholwyr ac ati gyda'r Arholwyr tramor yn uniongyrchol. Gweler gwefan y DSWA i gael gwybodaeth bellach. Mae'n bosib talu ar-lein drwy'r wefan, naill ai gan ddefnyddio PayPal neu gerdyn credyd/debyd, ond bydd yn rhaid anfon Ffurflen Gais wedi'i llenwi i swyddfa'r DSWA naill ai drwy e-bost neu'r post, o leiaf chwe wythnos cyn y diwrnod prawf arfaethedig.

# CODI WALIAU CERRIG SYCHION – CYMWYSTERAU A LLWYBRAU




Mae'r diagram uchod yn dangos amrywiaeth y cymwysterau a'r cyrsiau hyfforddiant sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ym maes codi waliau cerrig sychion. Mae'r golofn ganol yn dangos dilyniant uniongyrchol drwy gymwysterau Lefelau 1-3 Dyfarniadau Lantra-DSWA, gan arwain at Dystysgrif Prif Grefftwr y DSWA. Y cam cyntaf yn aml yw'r diwrnodau Hyfforddiant i Ddechreuwyr a gaiff eu cynnal gan ganghennau lleol y DSWA.

Mae Prentisiaethau Lantra (Canolradd ac Uwch) bellach ar gael drwy rai colegau a darparwyr hyfforddiant er mwyn i fyfyrwyr ennill cymwysterau a derbyn hyfforddiant galwedigaethol yng nghrefft codi waliau cerrig sychion, fel rhan o ddiploma mewn Cadwraeth Amgylcheddol. Mae angen i fyfyrwyr sy'n dilyn y llwybr prentisiaeth hon (y golofn dde) fod â chyflogwr sy'n cynorthwyo eu hyfforddiant yng nghrefft codi waliau cerrig sychion a byddant naill ai'n derbyn Tystysgrif Lefel 2 / Canolradd neu Dystysgrif Lefel 3 / Uwch, fel rhan o'u prentisiaeth gyfan.

Dry Stone Walling Association
Lane Farm, Crooklands,
Milnthorpe, Cumbria , LA7 7NH
Tel: 015395 67953
Ebost: information@dswa.org.uk
www.dswa.org.uk

Mae gwybodaeth am Ddyfarniadau Lantra (sy'n is-gwmni i Lantra) ar gael fan hyn:
www.lantra-awards.co.uk

Lluniwyd fersiwn Gymraeg y llyfryn hwn er cof am Gareth Pritchard, Penmaenmawr, cyn Brif Grefftwr y DSWA ac arholwr y Cynllun Ardystio Crefftwyr.

Mae DSWA yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, 289678
Diwygiwyd 2012. Hawlfraint DSWA Lluniadau © DSWA gan amryw artistiaid